Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr

# KOINONIA

Gofalaeth Glannau Ogwr

Rhifyn 101

Tachwedd 3, 2024

## Chwi yw Goleuni'r Byd



Mae nos calan gaeaf a thân gwyllt yn codi ofn ar nifer o bobl. Nid yn unig oherwydd bod gwrachod ac ysbrydion yn dod i guro'r drws, neu bod clec y tân gwyllt yn dychryn, ond oherwydd bod hi'n dywyll yn ogystal. Rydym ni'n debycach i dân gwyllt fel Cristnogion. Dywedodd Iesu yn Mathew 5 y canlynol;

**"Chwi yw goleuni'r byd. Ni ellir cuddio dinas a osodir ar fryn. Ac nid oes neb yn goleuo cannwyll ac yn ei rhoi dan lestr, ond yn hytrach ar ganhwyllbren, a bydd yn rhoi golau i bawb sydd yn y tŷ. Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd."**

Yn union fel mae'r tân gwyllt yn ei bocs heb ei danio, nid yw'n dangos ei oleuni a'i liwiau hardd. Yn yr un modd ein brain ninnau hefyd yw mynd ati i fod yn oleuni yn ein byd ni. Weithiau mae'n haws aros yn y bocs, mae'n glyd yma, dwi ddim yn defnyddio fy egni, mi fydd angen hynny ryw dro arall. Chi wedi clywed y dywediad 'Keep it for a rainy day"? Wel yma yng Nghymru mae hi'n bwrw glaw yn drwm arnom, a'r angen i ni fod yn oleuni yn ein cymundeau'n fwy nag unrhyw dro arall yn ein hanes.

Pwrpas tân gwyllt yw dod a phobl ynghyd i fwynhau'r wefr. Yn yr un modd ein braint ni yw dod a phobl yngyd i fwynhau cariad a gras ein Hawrglwydd, ac i brofi'r goleuni gan ddydwedodd Iesu ei hun, "Myfi yw Goleuni'r Byd"

Felly, awn allan i danio'r goleuni hynny o'n mewn, yn goch, melyn, glas neu wyrdd, yn ein hamrywiaeth diolchwn ein bod yn rhan o gynllun Duw i ddod a chydig o oleuni i ganol y tywyllwch.

## Y Ddrama Nadolig

Yn dilyn cyfarfod Zoom a gynhelir nos Iau diwethaf, penderfynwyd fynd ymlaen i gynhyrchu drama Nadolig fwy syml eleni. Bydd cyfarfod cyntaf y ddrama Nadolig yn digwydd dydd Sadwrn Tachwedd 17 am 10:30yb.

Croeso cynnes i bob un ohonoch.

## Stiwdio Ogwr

Mae Stiwdio Ogwr yn ôl a rydym angen eich help chi.

Unwaith y mis bydd Dylan yn cynnal 'Amser Paned' lle bydd cyfle i sgwrsio gyda rhai unigolion dros baned.

Os oes gan rhai ohonoch ddiddordeb defnyddio'r offer yn y stwidio a mynd ati i greu Podcast rhoch wybod i Dylan.

## Oedfaon

**Tachwedd 10, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Emlyn Davies, Pentyrch

**Tachwedd 17, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

**Tachwedd 24, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog


## Gofalaeth Glannau Ogwr

glannauogwr.cymru

**Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr**
4 Derwen Rd, Penybont, CF31 1LH

**Tabernacl, Porthcawl**
18 Fenton Place, Porthcawl, CF36 3DW

**Gweinidog**
Parchg Dylan Rhys Parry
4 Heol Cambell, Coity, CF35 6GP
Symudol: 07535904599
Ebost: dylan89rhys@gmail.com













## Pwyntiau Gweddi

- Gweddi dros bobl Sbaen yn enwedig y rhai sydd wedi ei heffeithio gan y llifogydd difrifol diweddar.
- Gweddi dros oleuni yn ein byd. Gweddiwch dros unigolion, gwledydd sydd mewn tywyllwch ar hyn o bryd.
- Gweddi dros Cyfundeb Dwyrain Morgannwg a'i gwaith.



**Calendr Adfent** Gofalaeth Glannau Ogwr

Bydd Calendr Adfent yr ofalaeth ar gael ddiwedd mis Tachwedd yn llawn o adnodau, myfyrdod a charolau.